www.food.gov.uk

FOOD STANDARDS AGENCY
WALES
ASIANTAETH SAFONAU BWYD CYMRU

At: Bawb â diddordeb

30 Mehefin 2009

Cyfeirnod: WAL–15/1644

Annwyl Gyfaill,

Ymgynghoriad ar Offeryn Statudol (OS) newydd i ddiwygio'r Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) 2009, i gywiro gwall yn y Rheoliadau hyn

Ysgrifennaf i'ch hysbysu bod gwall wedi'i ganfod yn nhestun Cymraeg yr OS ers cyhoeddi'r Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) 2009.

Cefndir

Mae'r Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) 2009 yn darparu ar gyfer gweithredu tair Cyfarwyddeb y Comisiwn:

- Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/128/EC sy'n pennu meini prawf purdeb penodol sy'n ymwneud â lliwiau sydd i'w defnyddio mewn deunyddiau bwyd;
- Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/60/EC sy'n pennu meini prawf purdeb penodol sy'n ymwneud â melysyddion sydd i'w defnyddio mewn deunyddiau bwyd; a,
- Cyfarwyddeb y Comisiwn 2008/84/EC sy'n pennu meini prawf purdeb penodol sy'n ymwneud ag ychwanegion bwyd ac eithrio lliwiau a melysyddion.

Cafodd gwall yn nhestun Cymraeg y Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) 2009 ei nodi gan Bwyllgor Is-ddeddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Yn y testun Cymraeg, mae Rheoliad 3(2)(a) yn cyfeirio at hepgor y diffiniad o "Gyfarwyddeb 95/45/EC" yn Rheoliadau Melysyddion mewn Bwyd 1995; mae hyn yn anghywir a dylai gyfeirio at hepgor "Cyfarwyddeb 95/31/EC" yn unol â'r testun Saesneg yn Rheoliad 3(2)(a). Bwriad y Rheoliadau Meini Prawf Purdeb ar gyfer Lliwiau, Melysyddion ac Ychwanegion Bwyd Amrywiol (Cymru) (Diwygio) 2009 yw cywiro'r gwall hwn yn y testun Cymraeg.

Amgaeaf gopi o'r Rheoliadau drafft yn Atodiad A er gwybodaeth neu i chi gynnig sylwadau arnynt. Yn y mater hwn, nid oes angen deddfwriaeth baralel yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Gan nad oes newidiadau o sylwedd wedi'i gwneud i unrhyw ran o'r meini prawf purdeb, ni ragwelir unrhyw effaith ariannol nac effaith arall ar ddiwydiant, ac o'r herwydd, nid ydym wedi llunio Asesiad Effaith i gyd-fynd â'r Rheoliadau drafft. Am y rheswm hwn, rydym hefyd wedi lleihau'r cyfnod

ymgynghori arferol o 3 mis i 4 wythnos. Os oes gennych unrhyw sylwadau ar unrhyw ran o'r ddeddfwriaeth newydd, a fyddech cystal â'u hanfon erbyn **28 Mehefin 2009.**

Yn gywir

Sarah Meredith
Iechyd Deietegol a Dewis i Ddefnyddwyr
Food Standards Agency Wales